

CYNGOR SIR Y FFLINT
DYDD IAU, 24 CHWEFROR 2022

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Iau, 24 Chwefror 2022

YN BRESENNOL: Cynghorydd Joe Johnson (Cadeirydd)

Cynghorwyr Mared Eastwood (Vice-Chair), Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, Paul Cunningham, Rob Davies, Ron Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dave Hughes, Dennis Hutchinson, Alasdair Ibbotson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Roberts, Tim Roberts, Kevin Rush, Tony Sharps, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Martin White, David Wisinger and Arnold Woolley

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr Jean Davies, Adele Davies-Cooke, Andy Dunbobbins and Colin Legg.

HEFYD YN BRESENNOL: Cynghorwyr

YN Y CYFARFOD:

99. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr Aelodau canlynol gysylltiad personol â'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2022/23 (eitem 11 ar yr agenda) gan fod ganddynt gysylltiad agos â phobl a gyflogir gan y Cyngor:

Y Cynghorwyr Chris Bithell, Hilary McGuill, Ian Smith, Carolyn Thomas, Ted Palmer, Neville Phillips, Kevin Rush, Dave Hughes, Paul Shotton, Ian Dunbar, Ralph Small a Bernie Attridge.

100. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2022.

Cynigodd y Cynghorydd Ian Dunbar eu bod yn gofnod cywir ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Chris Bithell.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

101. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod ei gyhoeddiadau wedi cael eu hanfon dros e-bost i bob Aelod, a rhoddodd drosolwg cryno o'r ymrwymadau y bu iddo eu cyflawni ers y cyfarfod diwethaf.

Yna anfonodd y Cadeirydd ei ddymuniadau gorau i bobl Wcráin gan obeithio y gellid cyrraedd ateb heddychlon.

Diolchodd hefyd i'w gyd Gynghorwyr na fyddant sefyll yn Etholiad mis Mai am eu gwasanaeth dros y blynyddoedd ar y Cyngor.

102. DEISEBAU

Ni chyflwynwyd deisebau.

103. STRATEGAETH NEWID HINSAWDD

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) adroddiad ar y cyd â Rheolwr y Rhaglen Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon.

Wrth gyflwyno'r Strategaeth Newid Hinsawdd, eglurwyd bod Llywodraeth Cymru (LIC) wedi datgan argyfwng hinsawdd yn 2019, gan alw ar y Sector Cyhoeddus i fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Bu i'r Cabinet benderfynu ym mis Rhagfyr 2019 y byddent yn canfod adnoddau i benodi Rheolwr Rhaglen i ddatblygu'r Strategaeth Newid Hinsawdd, a fyddai'n gosod nodau a champau gweithredu allweddol ar gyfer creu Cyngor carbon niwtral erbyn 2030.

Roedd y cyflwyniad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y canlynol:-

- Cyd-destun
- Cyflawniadau hyd yma
- Datblygiad y Strategaeth - llinell sylfaen
- Effeithiau Pandemig Covid-19
- Datblygiad y Strategaeth - Ymgysylltu
- Bwriad y Strategaeth oedd cael Cyngor di-garbon net erbyn 2030.
- Strategaeth Newid Hinsawdd
- Cynllun Gweithredu Di-garbon Net - ymddygiad
- Llinell Amser hyd at 2030

Talodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) deyrnged i Reolwr y Rhaglen a oedd, ar ôl ymuno â'r Cyngor ym mis Mehefin 2021, wedi gwneud llawer iawn o waith gyda gweithgor yr Aelodau i'w gwneud yn bosib cyflwyno'r Strategaeth heddiw. Roedd y gwaith a wnaed eisoes i leihau ôl troed carbon y Cyngor dros yr 8 mlynedd diwethaf wedi'i gynnwys yn y Strategaeth.

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i Reolwr y Rhaglen am ei chyfraniad hyd yma i Strategaeth y Cyngor ac i'r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi). Talodd deyrnged hefyd i'r Cynghorydd Carolyn Thomas, a fu'n rhan bwysig o ddatblygu nifer o'r mentrau. Diolchodd i drigolion Sir y Fflint am wneud y newidiadau bychain yn eu hymddygiad, fel defnyddio cludiant cyhoeddus ac ailgylchu cymaint ag y gallent, sy'n gwneud gwahaniaeth. Roedd mwyafrif y trigolion wedi ymateb i'r her, a diolchodd iddynt am eu cefnogaeth. Gan gyfeirio at alwad LIC i Sectorau Cyhoeddus fod yn garbon niwtral, eglurodd bod y Cabinet

wedi gwneud amrywiaeth o benderfyniadau i alluogi'r Cyngor i gyrraedd y nod erbyn 2030. Roedd gan blant ddiddordeb brwd mewn carbon niwtraliaeth a materion lleihau carbon, a theimlodd y dylid ystyried, ar ôl i'r Cyngor newydd ddechrau, creu Panel Ymgynghorol Plant a Myfyrwyr i drafod y materion hyn. Cynigiodd yr argymhelliad.

Siaradodd y Cynghorydd Sean Bibby fel Cadeirydd Bwrdd y Rhaglen Newid Hinsawdd, gan dalu teyrnged i'r gwaith a wnaed gan Reolwr y Rhaglen a'r Prif Swyddog ar lunio'r Strategaeth. Wrth eilio'r argymhelliad, diolchodd i'w gyd Aelodau ar Fwrdd y Rhaglen Newid Hinsawdd am eu heriau a'u cyfraniadau.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Richard Jones am y goblygiadau o ran cost, cadarnhaodd Rheolwr y Rhaglen ei bod yn anodd darparu gwybodaeth ariannol gan fod rhaid ymchwilio ymhellach i'r prosiectau. Bydd achosion busnes yn cael eu datblygu ar gyfer pob maes sy'n gofyn am fuddsoddiad, gyda dealltwriaeth glir o'r goblygiadau ariannol fydd ynghlwm. Ychwanegodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) ei bod yn rhy gynnar i ragweld hyn ar hyn o bryd, ond sicrhaodd y Cynghorydd Jones y byddai achosion busnes buddsoddi yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor. Nid oedd costau'r technolegau newydd sydd eu hangen i gyflawni carbon niwtraliaeth yn hysbys ar hyn o bryd.

Cafwyd gwybodaeth gan y Prif Weithredwr am nifer o fentrau LIC oedd wrthi'n cael eu trafod, megis datgarboneiddio cydrannau tai a datblygu ysgolion carbon niwtral. Roedd yna hefyd sawl prosiect peilot ar ddatgarboneiddio'n mynd rhagddynt. Roedd rhai o'r technolegau newydd angenrheidiol yn dal i fod wrthi'n cael eu datblygu, a oedd yn broblem ar gyfer LIC a'r Cyngor. Roedd yn deall y pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Jones, ond darparodd sicrwydd y byddai achosion busnes yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor eu hystyried pan fyddai'r wybodaeth ar gael. Ailadroddodd y Cynghorydd Jones ei bryderon ynglŷn â chytuno i'r Strategaeth heb unrhyw syniad o'r costau fyddai ynghlwm.

Croesawodd y Cynghorydd Ian Smith yr adroddiad, gan ddweud bod effeithiau newid hinsawdd i'w teimlo ym mhobman, a chyfeirio at fentrau ym Mharc Gwepa.

Fel Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, croesawodd y Cynghorydd Chris Bithell yr adroddiad a oedd yn dathlu amrediad o gyflawniadau'r Cyngor hyd yma ac yn nodi'r Strategaeth wrth symud ymlaen i gyrraedd y nod di-garbon net a osodwyd gan LIC erbyn 2030. Dywedodd fod hon yn ymdrech ar y cyd a oedd yn galw ar bawb i wneud eu rhan i leihau allyriadau carbon, ac y dylai'r Sir fod yn falch o sut roedd ei thrigolion wedi cyfrannu, yn enwedig o ran ailgylchu. Roedd Rheolwr y Rhaglen yn ymweld â chynghorau tref i ledaenu'r neges a'u hannog i gefnogi'r frwydr yn erbyn newid hinsawdd. Diolchodd i'r Prif Swyddog, Rheolwr y Rhaglen a'r tîm am eu gwaith ar hyn.

Croesawodd y Cynghorydd Paul Shotton yr adroddiad cadarnhaol, gan ofyn am ddiweddariad ar y gwaith yr oedd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ei wneud ar atal llifogydd. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) bod trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda CNC mewn perthynas â'r cyfrifoldeb am gynnal a chadw'r asedau hyn. Cyfeiriodd at effeithiau Storm Kristof y llynedd, pan gafwyd pum achos o lifogydd, gan

gadarnhau y datblygwyd cynlluniau llifogydd ar gyfer pob un o'r ardaloedd hynny. Adroddodd ar y gwaith yn Sandycroft i helpu atal llifogydd yn y dyfodol.

Cymeradwyodd y Cynghorydd Dave Healey bawb a oedd wedi galluogi'r Cyngor i gyrraedd y pwynt hwn, gan ddweud pe bai'r Cyngor yn cyrraedd statws di-garbon net erbyn 2030, na fyddai ond yn gyfrifol am 3% o'r allyriadau carbon. Dywedodd bod y thema ymddygiad yn dod â phopeth ynghyd a bod rhaid datblygu strategaethau i estyn allan i'r sir gyfan. Cefnogodd awgrym yr Arweinydd am sefydlu "Panel Ymgynghori Plant a Myfyrwyr", gan longyfarch trigolion Sir y Fflint am y ffordd y maent wedi croesawu'r polisi ailgylchu.

Gofynnodd y Cynghorydd Tudor Jones gwestiynau am allyriadau, plannu coed, colli coed ac ynysu adeiladau. Mewn ymateb, darparodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) eglurhad o'r cyllid a'r gwaith cynnal a chadw hirdymor ar y coed ym Mharc Gwepre, a'r data a gasglwyd am goed a gollwyd i'r Clefyd Coed Ynn.

Darparodd Rheolwr y Rhaglen esboniad o'r gwahanol dirweddau lle gellid clustnodi amsugniad carbon. Roedd yn bwysig clustnodi a mapio'r gwahanol dirweddau a mathau o gynefinoedd oedd yn bodoli ledled y sir, er mwyn pennu'r ffigurau amsugno carbon yn briodol. Gan nad oedd y wybodaeth hon ar gael i bob ardal o dir Sir y Fflint, roedd y gwaith o fapio'r ardaloedd hynny wedi'i gynnwys fel cam gweithredu o fewn defnydd tir er mwyn cael gwell dealltwriaeth. Aeth ymlaen i roi eglurhad o'r dull o adrodd ar ffactorau allyriadau i LIC, a'r ymagwedd tuag at blannu coed yn y dyfodol. Dywedodd y Cynghorydd Tudor Jones fod hon yn dasg anodd yr oedd angen mynd i'r afael â hi nawr er mwyn dod i ddeall pa mor llwyddiannus y bu'r cynllun.

Adroddodd y Cynghorydd Carolyn Thomas am ganlyniadau cadarnhaol o drafodaeth a gafwyd gydag un o'r trigolion ynglŷn â gosod paneli solar ar ei heiddo'n ddiweddar. Cyfeiriodd at y gwaith a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol ar draws portffolios ac at y cyllid a gafwyd gan LIC ar gyfer ysgolion, cyllid y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer tai carbon isel, parciau solar, gosod paneli solar ar eiddo, ynghyd â'r cynnydd yn y cyfraddau ailgylchu a goleuadau LED. Teimlai y dylid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i hyn er mwyn i'r trigolion ddod i ddeall yr hyn roedd y Cyngor wedi'i gyflawni dros y 12 mlynedd diwethaf, a thynnu sylw ato pan fo mwy o gyllid grant yn cael ei geisio gan LIC.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Johnson at rôl caffael yn y Strategaeth Newid Hinsawdd, a oedd wedi'i gynnwys fel amcan 3 ac yn y daflen camau gweithredu. Roedd yn hanfodol bod pob agwedd ar y gadwyn gyflenwi yn cael eu nodi a'u cynnwys a bod caffael yn y Strategaeth Gwerth Cymdeithasol yn cael ei ddatblygu. Roedd caffael yn un o feysydd allweddol y Strategaeth Newid Hinsawdd, ac roedd yn cefnogi hyn yn llwyr wrth symud ymlaen.

Cefnogodd y Cynghorydd Mike Peers y Strategaeth Newid Hinsawdd wrth symud ymlaen, ond roedd yn cytuno â'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Richard Jones y byddai hyn yn dibynnu ar y cyllid. Gofynnodd gwestiynau am y Tariff Ynni Gwyrdd, tir a neilltuwyd ar gyfer plannu coed, manau gwefru ceir a chludiant cyhoeddus.

Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) fod hyn yn fater cymhleth iawn gyda rhai technolegau ddim ar gael eto. Gan gyfeirio at blannu coed, nododd bod bioamrywiaeth yn cael ei ystyried a chadarnhaodd y byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda chymunedau i sicrhau mai dyma'r peth iawn i'w wneud yn yr ardal honno. Byddai hyn yn sicrhau yr ymgynghorwyd â'r cyhoedd a'u bod yn cytuno â'r hyn a gynigir yn y Strategaeth, ac yn ei gefnogi. Gan gyfeirio at y pwyntiau a godwyd am gludiant cyhoeddus, cytunodd gyda'r sylwadau a wnaed, gan ddweud fod rhai o'r pethau y gellid eu darparu y tu hwnt i'w cwmpas, ond mai'r gobaith oedd y gallai hyn ddylanwadu ar ail gynnig am welliant i wasanaethau i'r cyfeiriad hwnnw.

Fel Aelod Cabinet Datblygu Economaidd, diolchodd y Cynghorydd Derek Butler i'r Aelodau am eu cyfraniadau, gan ddweud bod cofnod a rhestr cyflawniadau'r Cyngor yn sylweddol ac yn ganmoladwy. Ychwanegodd bod ardaloedd fel gwlyptiroedd a gwelyau cyrs yn dod â bioamrywiaeth arall ac yn helpu gyda dŵr glanach. Cyfeiriodd at Fframwaith Map Llwybrau at Ddatgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus LIC, gan ddweud mai o'r pum amcan, ymddygiad oedd y pwysicaf, gan gychwyn gyda chamau bychain. Canmolodd yr adroddiad, a oedd yn gosod targedau amlwg, gan ddiolch i'r tîm a oedd yn ei gyflwyno heddiw.

Fel Aelod Cabinet y Gwasanaethau Stryd, nododd y Cynghorydd Glyn Banks bod angen i bob unigolyn yn Sir y Fflint chwarae eu rhan, gan gychwyn gyda newidiadau bychain fel defnyddio'r Llwybrau Diogelach i'r Ysgol yn lle teithio mewn ceir, a gwneud y defnydd gorau o ailgylchu yn y cartref.

Cefnogodd y Cynghorydd Hilary McGuill yr argymhellion, ond tynnodd sylw at bwysigrwydd rhoi'r camau gweithredu ar waith. Dywedodd y dylid ystyried yn ofalus cyn cael gwared â choed mwy neu blannu rhai newydd yn eu lle.

Dywedodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson ei fod yn gyfrifoldeb mawr ar y Cyngor i arwain yr ardal leol a chefnogi prosiectau datgarboneiddio yn y sector preifat. Roedd hwn yn fan cychwyn, gyda'r goblygiadau a'r penderfyniadau ariannol i'w pennu yn nes ymlaen. Roedd rhaid i hon fod yn ddogfen fyw a fyddai'n cael ei hail-archwilio a'i hadolygu wrth agosáu at 2030. Gan gyfeirio at y 30 mlynedd diwethaf, canmolodd y camau y mae nifer o bobl ifanc wedi'u cymryd i godi'r mater hwn, sydd wedi arwain at safbwynt LIC.

Gofynnod y Cynghorydd Helen Brown a ddylid aralleirio'r trefniadau llywodraethu a nodir ym mhwynt 23.2 i adlewyrchu unrhyw newidiadau wrth arwain at 2030. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) bod y geiriad yn gywir o ran enwi'r rhai a oedd wedi arwain ar y strategaeth ar y pryd. Gan gyfeirio at sylwadau'r Cynghorydd Ibbotson, roedd y trydydd argymhelliad yn nodi y byddai hyfforddiant Llythrennedd Hinsawdd yn cael ei ddarparu fel elfen graidd o'r rhaglen gynefino ar gyfer pob Aelod. Mewn ymateb i bwynt y Cynghorydd Thomas, dywedodd y Prif Swyddog bod argymhelliad 4 yn ymdrin â hyn, ac y byddai gwefan yn cael ei datblygu i amlygu'r hyn a gyflawnwyd yn y gorffennol a nodi'r heriau ar gyfer y dyfodol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Ian Dunbar at ddarparu manau gwefru ceir trydan, gan nodi bod Sir y Fflint yn un o'r cynghorau sy'n arwain ar hyn.

Achubodd ar y cyfle i ganmol cyfraniad y bobl leol i'r cynllun plannu coed ym Mharc Gwepre.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Ian Roberts ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Sean Bibby.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cydnabod y cynnydd a wnaed hyd yma o ran cyflawni mesurau lleihau carbon;
- (b) Cymeradwyo'r Strategaeth Newid Hinsawdd ar gyfer 2022 - 2030 a'i nodau;
- (c) Trefnu sesiwn frifio ar gyfer Aelodau newydd yn dilyn yr etholiad i dynnu sylw at y gwaith a wnaed hyd yma ac ymrwymiadau'r Cyngor wrth symud ymlaen, a sicrhau bod y Strategaeth Newid Hinsawdd yn llunio rhan o Raglen Gynefino'r Aelodau; a
- (d) Diweddarau gwefan y Cyngor i gynnwys y Strategaeth Newid Hinsawdd.

Item 6 - Climate Change presentation slides

104. CYNLLUN GWEITHREDU AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

Wrth gyflwyno'r adroddiad, rhoddodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) drosolwg o'r gwaith a wnaed yn 2017 gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i ddod i ddeall sut yr oedd cynghorwyr etholedig yn adlewyrchu demograffeg yr ardaloedd roeddent yn eu cynrychioli. Mabwysiadwyd hwn gan y Cyngor Sir ym mis Gorffennaf 2021.

Adroddodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) ar y gweithdai ble trafodwyd hyn, gyda'r Aelodau'n cefnogi'r cynllun gweithredu arfaethedig. Roedd arferion da eisoes yn bodoli o fewn grwpiau gwleidyddol a'r pleidiau cenedlaethol i hybu a chynyddu amrywiaeth. Y nod oedd cydnabod nad yw rhai rhannau o'n poblogaeth yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar y Cyngor, ac edrych ar y rhesymau am hyn a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau. Gallai hyn arwain at amrediad mwy amrywiol o ymgeiswyr ar y papurau pleidleisio, a fyddai'n cynnig mwy o ddewis i'r etholwyr.

Roedd y cynllun gweithredu wedi'i rannu'n 11 o ffrydiau gwaith, gyda phob un â'r nod o godi ymwybyddiaeth o rôl cynghorydd, y manteision a'r broses o sefyll mewn etholiad. Rhoddwyd sicrwydd hefyd y byddai hyfforddiant a chymorth yn cael eu darparu ar ôl i'r cynghorwyr gael eu hethol. Yna cyfeiriodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) at y proffilio ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Merched ar 8 Mawrth, gan roi gwybodaeth am y datganiad i'r wasg a phroffiliau cynghorwyr benywaidd i annog mwy o ferched i sefyll mewn etholiad.

Arweiniodd adborth o'r gweithdai a gan Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd at i sawl Aelod nodi y byddai hyn wedi bod yn fuddiol pan oeddent hwy'n sefyll mewn etholiad. Darparwyd trosolwg o'r camau a gymerwyd a'r gwaith y mae angen ei wneud i gynhyrchu'r lefel hon o newid,

gydag awgrymiadau cadarnhaol yn codi o'r gweithdai, megis proffilio cynghorwyr ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched. Rhwystr arall oedd cael amser o'r gwaith i fynd i gyfarfodydd, ac roedd trafodaethau'n cael eu cynnal â chyflogwyr i fynd i'r afael â hyn a chynnig gwell dealltwriaeth o'r rôl. Awgrymwyd hefyd y dylid cwtogi'r pecyn gwybodaeth a roddir i Aelodau adeg cyfrif yr etholiad, gan roi mwy o wybodaeth wedyn yn y sesiynau cynefino.

Byddai'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog (Llywodraethu) yn cynnal sesiynau briffio ymwybyddiaeth o etholiadau ar-lein cyn bo hir i ateb cwestiynau, darparu gwybodaeth a sicrhau bod y Cynllun Gweithredu Amrywiaeth yn llwyddo.

Teimlai'r Cynghorydd Tony Sharps mai cyfrifoldeb y pleidiau gwleidyddol oedd darparu ymgeiswyr ar gyfer etholiadau.

Dywedodd y Cynghorydd Gladys Healey pe byddai'r cymorth a amlinellir yn yr adroddiad yn cael ei ddarparu, y byddai'n fuddiol iawn i Aelodau newydd ac y dylid ei ddatblygu ymhellach.

Cynigiwyd yr argymhellion yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Neville Phillips ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Michelle Perfect.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cynllun gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

105. ADDEWID YMGYRCHOEDD TEG CLLLC

Wrth gyflwyno'r adroddiad, cyfeiriodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) at y ffaith fod natur dadleuon gwleidyddol yn mynd yn fwy bras, gyda'r enghreifftiau mwyaf eithafol yn arwain at ymosodiadau angheuol ar Aelodau Seneddol, gyda cham-drin corfforol, cam-drin eiddo a cham-drin ar y cyfryngau cymdeithasol i'w gweld ar bob lefel o'r llywodraeth. Er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa hon sy'n gwaethygu, roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLIC) wedi bod yn hyrwyddo Addewid Ymgyrchoedd Teg, sy'n nodi "y bydd ymgeiswyr yn ymgyrchu ar sail materion a pholisïau yn hytrach na phersonoliaethau eu gwrthwynebwyr gwleidyddol". Roedd Sir y Fflint yn gofyn i'w Aelodau ymrwymo i'r Addewid Ymgyrchoedd Teg ac os cefnogwyd hyn, byddai'r Prif Swyddog a'r Prif Weithredwr yn gofyn i ymgeiswyr newydd ymrwymo i'r Addewid Ymgyrchoedd Teg.

Wrth alw am gefnogaeth yr holl Aelodau, ac fel Arweinydd y Cyngor, cynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts yr argymhellion ac annog pob Arweinydd Grŵp i wneud yr addewid ar ran eu grwpiau. Cadarnhaodd mai ef oedd un o'r llofnodwyr gwreiddiol pan gyflwynwyd hyn ger bron Pwyllgor Gwaith CLLIC, gyda holl Arweinwyr y Cynghorau yn llofnodi'r Addewid. Er nad oedd ganddo broblem gyda dadleuon cyhoeddus cadarn am faterion perthnasol, dywedodd na ddylai hyn gynnwys ymosod ar bersonoliaethau na chamdriniaeth, a oedd yn diraddio'r holl broses ddemocrataidd. Wrth gyfeirio at effaith camdriniaeth o'r fath, roedd yn cefnogi'r addewid ymgyrchu yn gyfan gwbl ar ei ran ei hun a'r blaid Lafur.

Eiliodd y Cynghorydd Mike Peers y cynnig. Er y gofynnwyd i Arweinwyr y Grwpiau wneud yr addewid ar ran eu grwpiau, dywedodd mai penderfyniad

Aelodau grwpiau unigol oedd ymrwymo i ymgyrchu teg a phleidleisio fel y mynnant, ac nid ei le ef oedd gwneud addewid ar eu rhan. Gan gyfeirio at Adran 1.03 yr adroddiad, dywedodd fod Aelodau sy'n gwasanaethu ac yn sefyll i gael eu hail-ethol wedi'u rhwymo i'r Cod Ymddygiad statudol y bu iddynt ei lofnodi wrth ddechrau yn y swydd. Cytunodd â'r sylwadau a wnaed gan yr Arweinydd, ac roedd hefyd wedi bod yn dyst i ddigwyddiadau difrifol ac yn gobeithio y byddai eleni'n wahanol. Dywedodd fod yr Addewid Ymgyrchoedd Teg yn ein hatgoffa sut y dylai Aelodau ymddwyn yn ystod cyfnod yr etholiad, a bod adran 1.04 yn cynnwys dolen at wybodaeth am y safonau disgwylidig a bod y Cod Ymddygiad yn dal i fod yn gymwys.

Cefnogodd y Cynghorydd Chris Dolphin yr argymhellion, gan gydnabod agweddau cadarnhaol y cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â'r rhai nad oeddent mor gadarnhaol.

Ymrwymodd y Cynghorydd Clive Carver i'w addewid ei hun, er na fyddai'n sefyll i gael ei ail-ethol.

Cytunodd y Cynghorydd Tony Sharps â sylwadau'r Arweinydd, gan ddweud fod ei grŵp ef yn cefnogi'r Addewid yn unfrydol.

Yn ystod y drafodaeth, gofynnodd y Cynghorydd Ian Roberts am bleidlais wedi'i chofnodi, a dangosodd y nifer gofynnol o Aelodau eu cefnogaeth. Ar ôl rhoi'r mater i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhellion yn unfrydol.

PENDERFYNWYD:

- (a) Y byddai pob Cynghorydd sy'n ceisio cael eu hail-ethol yn gwneud Addewid Ymgyrchoedd Teg, ac
- (b) Y byddai cais yn cael ei wneud i'r Swyddog Canlyniadau ofyn i bob ymgeisydd yn yr etholiadau sydd i ddod wneud Addewid Ymgyrchoedd Teg.

106. CYNLLUN DEISEBAU DRAFFT

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad i'r Cyngor gymeradwyo cynllun drafft i gyflawni ei ddyletswydd gyfreithiol i alluogi aelodau'r cyhoedd i gyflwyno deisebau ar-lein. Ar ôl cael ei ddiwygio a'i gymeradwyo gan Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democraidd, roedd cymeradwyaeth yr Aelodau'n cael ei geisio i gyhoeddi'r cynllun ar wefan y Cyngor. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi meini prawf arfaethedig ar gyfer derbyn deisebau a gyflwynir naill ai ar lein neu drwy Aelodau lleol fel rhan o'r broses bresennol. Byddai canlyniadau pob deiseb a dderbynnir yn parhau i gael eu hadrodd i'r Cyngor bob blwyddyn.

Fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democraidd, bu i'r Cynghorwyr Neville Phillips a Michelle Perfect gynnig ac eilio'r argymhelliad.

Tynnodd y Cynghorydd Mike Peers sylw at bwysigrwydd cyflwyno deisebau ar faterion cynllunio o fewn y cyfnod ymgynghori o 21 diwrnod cyn

penderfynu ar y cais. Er mwyn gwneud hyn yn glir, cynigiodd y dylid cynnwys y geiriau 'yn ystod y cyfnod ymgynghori' ar ddiwedd adran 8(2). Eglurodd y Prif Swyddog y byddai'r broses yn caniatáu adrodd ar ddeisebau a ddaw i law ac a dderbynnir ar ôl y cyfnod ymgynghori fel rhan o'r 'sylwadau hwyr' a ystyrir ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio. Er ei fod yn cytuno â'r dull hwn, dywedodd y Cynghorydd Peers y dylid annog unigolion i gyflwyno ymatebion i geisiadau cynllunio o fewn y cyfnod ymgynghori statudol pan fo hynny'n bosib. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Richard Jones.

Gwnaeth y Cynghorydd Hilary McGuill sylwadau ar yr angen i ddiffinio'r cyfnod ar gyfer casglu, derbyn ac ymateb i ddeisebau. Yn dilyn canllawiau gan y Prif Swyddog, cynigiodd y dylid ymestyn y cyfyngiad o 21 diwrnod ar gyfer casglu llofnodion i 30 diwrnod, ac y dylid nodi terfyn amser pellach o 30 diwrnod ar gyfer derbyn a phenderfynu ar y ddeiseb. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Marion Bateman.

Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau, eglurwyd bod rhaid i ddechreuwr deiseb (yr hyrwyddwr) roi eu henw a chod post yn Sir y Fflint. Ar y mater o fformat deisebau, dywedodd y Prif Swyddog y gellid darparu templed ar gyfer deiseb ar lein, ond nad oedd hynny'n atal unigolion rhag creu eu deiseb eu hunain.

O ystyried y diwygiadau arfaethedig, cynigiodd y Cynghorydd Derek Butler y dylid cyfeirio'r cynllun yn ôl at Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd er ystyriaeth a chyfraniadau pellach. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Patrick Heesom.

Awgrymodd y Prif Swyddog, er mwyn i'r Cyngor fodloni'r gofynion deddfwriaethol o fewn y terfyn amser, y dylid mabwysiadu'r cynllun drafft gan ymgorffori'r diwygiadau arfaethedig, ac y dylai Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd adolygu'r ddogfen yn nhymor newydd y Cyngor i ganfod a oedd angen gwneud unrhyw newidiadau pellach.

Derbyniwyd y tri diwygiad gan gynigydd ac eilydd yr argymhellion, sef y Cynghorwyr Neville Phillips a Michelle Perfect, ac o'u rhoi i bleidlais, cawsant eu cymeradwyo, gan lunio rhan o'r cynnig gwreiddiol.

PENDERFYNWYD:

- (a) Y byddai'r Cyngor yn cymeradwyo cynnwys y cynllun deisebau yn y Cyfansoddiad, yn amodol ar y newidiadau canlynol:
- Cynnwys y geiriau 'yn ystod y cyfnod ymgynghori' ar ddiwedd adran 8(2) er mwyn annog yr arfer hwnnw, a nodi y bydd deisebau a ddaw i law ar ôl y cyfnod ymgynghori cynllunio yn cael eu trafod fel rhan o'r sylwadau hwyr;
 - Ymestyn y cyfnod hiraf ar gyfer casglu llofnodion i 30 diwrnod a nodi y bydd penderfyniadau ar dderbyn a phenderfynu ar ddeisebau yn cael eu gwneud o fewn 30 diwrnod o'u cyflwyno;

- Mabwysiadu'r cynllun er mwyn bodloni'r terfyn amser a nodi ei fod yn amodol ar adolygiad pellach gan Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd yn nhymor newydd y Cyngor; a

(b) Y byddai'r Cyngor yn mabwysiadu meini prawf cyson ar gyfer deisebau a ystyrir yn dderbyniol.

107. PENODI AELODAU LLEYG I'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Wrth gyflwyno'r adroddiad, eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) bod angen i'r Cyngor gynyddu nifer yr aelodau lleyg ar ei Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Y rheswm am hyn oedd sicrhau bod aelodau lleyg yn llunio traean o'r Pwyllgor. Darparwyd trosolwg o'r broses recriwtio a dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.

Gan fod cyfnod un o'r aelodau lleyg presennol yn y swydd ar fin dod i ben ym mis Mai 2022, cynigiwyd ymestyn eu cyfnod hwy am 12 mis i ganiatáu ar gyfer y broses recriwtio bresennol ac er mwyn i'r Cyngor newydd gael ystyried a ddylid ailbenodi'r unigolyn hwnnw i'r swydd am gyfnod pellach.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Chris Dolphin a chawsant eu heilio gan y Cynghorydd Patrick Heesom.

PENDERFYNWYD:

- (a) Y byddai'r Cyngor yn nodi'r diweddariad i'r broses recriwtio bresennol; ac
- (b) Y byddai'r Cyngor yn ailbenodi'r Aelod Lleyg am 12 mis arall.

108. DATGANIAD POLISIAU TAL AR GYFER 2022/23

Wrth gyflwyno'r adroddiad, adroddodd y Rheolwr Corfforaethol (Pobl a Datblygu Sefydliadol) mai dyma'r 10^{fed} Datganiad Polisi Tâl Blynyddol, gan fyfyrion ar y trefniadau presennol o ran tâl. Rhoddwyd gwybodaeth am y polisiau ar gyfer 2021/22 mewn nifer o feysydd allweddol, a oedd yn debyg i'r adroddiadau blynyddol blaenorol. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r egwyddorion ond yn lle'r canllawiau a'r newidiadau diweddaraf i ddeddfwriaeth LIC, roedd sawl adran wedi cael eu hychwanegu, eu diweddau neu eu tynnu, ac amlinellwyd y rhain.

Cynigiodd y Cynghorydd Clive Carver yr argymhellion, a eiliwyd gan y Cynghorydd Geoff Collet.

PENDERFYNWYD:

- (a) Y byddai'r Cyngor Sir yn cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl drafft atodol ar gyfer 2022/23; ac
- (b) Y byddai'r Cyngor Sir yn dirprwyo awdurdod i'r Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol, ddiweddarau Datganiad Polisi Tâl 2022/23 yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gan

ddeddfwriaeth, polisi'r Llywodraeth neu drafodaethau cenedlaethol, fel ei fod yn parhau i fod yn gywir ac yn gyfredol.

109. CWESTINYNAU GAN Y CYHOEDD

Dim.

110. CWESTIYNAU

Dim.

111. RHYBUDD O GYNNIG

Dim.

112. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 14.00 a daeth i ben am 16.45)

.....
Y Cadeirydd

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 4.54 pm)

.....
Cadeirydd